

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL

47/2018

DYDDIAD CYHOEDDI:

12/07/2018

# Gwerthusiad Ffurfiannol o'r Model Ysgolion Arloesi

## Crynodeb Gweithredol

## Gwerthusiad Ffurfiannol o'r Model Ysgolion Arloesi

Ymchwil Arad, ar y cyd ag ICF Consulting Limited

Adroddiad Ymchwil Llawn: Ymchwil Arad, ar y cyd ag ICF Consulting Limited. (2018). *Gwerthusiad Ffurfiannol o'r Model Ysgolion Arloesi: Crynodeb Gweithredol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 47/2018. Ar gael trwy droi: <https://gov.wales/statistics-and-research/formative-evaluation-pioneer-school-model/?lang=cy>

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid rhai Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Rhian Davies

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 6791

E-bost: [Rhian.davies45@llyw.cymru](mailto:Rhian.davies45@llyw.cymru)

## Rhestr termau

| Acronym/Gair allweddol | Diffiniad  |
|------------------------|--|
| ANG                    | Athro Newydd Gymhwysu  |
| CAG                    | Grŵp Cwricwlwm ac Asesu  |
| DPP                    | Datblygiad Proffesiynol Parhaus  |
| FfCD (y Fframwaith)    | Fframwaith Cymhwysedd Digidol  |
| HMS                    | Hyfforddiant Mewn Swydd  |
| IAG                    | Grŵp Cynghori Annibynnol   |
| MDPh                   | Maes (meysydd) Dysgu a Phrofiad  |
| OECD                   | Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd  |
| Partneriaid strategol  | Mae cyfeiriadau at bartneriaid strategol yn yr adroddiad hwn yn cynnwys sefydliadau Haen 2 fel y'u disgrifir yn <i>Addysg: Cenhadaeth ein Cenedl</i> , sef Consortia Rhanbarthol, Estyn, Cymwysterau Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg (EWC), byrddau arholi ac addysg uwch. |
| SAU                    | Sefydliad(au) Addysg Uwch  |
| SIG(s)                 | Grwpiau Gwella Ysgolion: grwpiau o ysgolion sy'n cydweithio er mwyn nodi arfer gorau, datblygu, rhannu ac arloesi. Roedd y grwpiau hyn yn bodoli cyn model yr Ysgolion Arloesi.  |
| UDRh                   | Uwch Dîm Rheoli  |
| Ysgolion Partner       | Yr holl ysgolion eraill yng Nghymru, nad ydynt yn Ysgolion Arloesi   |

## Crynodeb gweithredol

### Cyflwyniad a nod y gwerthusiad

- Comisiynwyd Ymchwil Arad, ar y cyd ag ICF Consulting, gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad ffurfiannol o fodel yr Ysgolion Arloesi. Cychwynwyd ar y gwaith ymchwil a oedd yn rhan o'r gwerthusiad ym mis Gorffennaf 2016, gan barhau tan fis Chwefror 2018. Nod y gwerthusiad oedd deall sut y cyflawnir y model a chofnodi unrhyw beth a ddysgwyd er mwyn i hyn gyfrannu at gyfnodau cyflawni dilynol.
- Roedd adroddiad Athro Graham Donaldson a gyhoeddwyd yn 2015, *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*, yn ystyried dibenion sylfaenol addysg, ac roedd wedi argymhell cwricwlwm a threfniadau asesu sy'n gallu cyflawni'r dibenion hynny yn y ffordd orau.<sup>1</sup> Mae model yr Ysgolion Arloesi wrth wraidd y broses o gynllunio a gweithredu'r trefniadau newydd hyn ar gyfer y cwricwlwm ac asesu.
- Yn ogystal, argymhellodd *Dyfodol Llwyddiannus* 'y dylid gwneud trefniadau gwerthuso annibynnol ac ar wahân er mwyn monitro effeithiolrwydd strwythur y newid a'r trefniadau ar gyfer y cwricwlwm newydd, mewn perthynas â gwelliannau i ansawdd y dysgu a'r perfformiad.'<sup>2</sup> Y gwerthusiad ffurfiannol hwn yw'r cyntaf o'r elfennau hyn – effeithiolrwydd strwythur y newid. Mae'n canolbwyntio ar effeithiolrwydd y strwythurau a weithredwyd er mwyn cynorthwyo datblygiad trefniadau newydd ar gyfer y cwricwlwm.

### Model yr Ysgolion Arloesi

- Amlygodd *Dyfodol Llwyddiannus* yr angen i greu 'cwricwlwm sy'n cynorthwyo ac sy'n galluogi addysgu a dysgu o safon fyd-eang yn yr unfed ganrif ar hugain'.<sup>3</sup> Cynigiodd Athro Donaldson themâu trawsgwricwlaidd sef llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, a chamau cynnydd i ddisodli cyfnodau allweddol. Cynigiwyd chwe Maes Dysgu a Phrofiad fel strwythur ar gyfer y cwricwlwm newydd.
- *Mae Cymwys am Oes: Cwricwlwm i Gymru, cwricwlwm am Oes* (Llywodraeth Cymru, 2015) yn nodi cynlluniau er mwyn datblygu a gweithredu'r cwricwlwm newydd yng Nghymru, gan bwysleisio egwyddor sybsidiaredd er mwyn annog perchnogaeth a chyfrifoldeb lleol dros ddatblygu'r cwricwlwm. Roedd model yr Ysgolion Arloesi a luniwyd yn wreiddiol yn canolbwyntio ar dair ffrwd waith: i. Cwricwlwm ac Asesu gan

---

<sup>1</sup> Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru* <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-en.pdf>

<sup>2</sup> Ibid. t.94

<sup>3</sup> Ibid. t.19

gynnwys Meysydd Dysgu a Phrofiad; ii. Dysgu Proffesiynol; a iii. Fframwaith Cymhwysedd Digidol (y Fframwaith).

- Roedd y cynllun gweithredu er mwyn datblygu'r cwricwlwm newydd yn cynnwys proses gydweithredol rhwng Llywodraeth Cymru, Consortia Rhanbarthol ac ymarferwyr mewn ysgolion. Yn ogystal, mae'r model wedi cynnwys gweithgarwch ymgysylltu â phartneriaid strategol allweddol o fyd addysg ac arbenigwyr academiaidd. Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol oedd llinyn cyntaf y cwricwlwm newydd i'w ddatblygu, gan ganolbwyntio ar sgiliau digidol i'w defnyddio mewn amrediad o bynciau a sefyllfaoedd. Fe'i ddatblygwyd gan rwydwaith bach o Arloeswyr Digidol ac fe'i ddarparwyd i ysgolion ym mis Medi 2016.
- Strwythurwyd y gwaith o gyflawni'r model ar sail llinynnau gweithgarwch, ond cysylltiedig: yn ystod Llinyn 1, datblygodd Ysgolion Arloesi a'u hymarferwyr cynrychioliadol set o egwyddorion ar gyfer y cwricwlwm; roedd Llinyn 2 yn canolbwyntio ar ddyluniad MDPH ar lefel uchel; yn ystod Llinyn 3, a gychwynnodd yn hwyr yn 2017, mae'r holl ysgolion Arloesi wedi dechrau cydweithio i ddatblygu fframwaith cyffredin ar draws pob MDPH, i'w weithredu ar draws y cwricwlwm.
- Mae Arloeswyr Dysgu Proffesiynol wedi cynnal amrediad o weithgareddau fel rhan o weithredu model yr Ysgolion Arloesi. Roeddent yn allweddol wrth ddatblygu'r Safonau Addysgu Proffesiynol newydd ac mae Arloeswyr Dysgu Proffesiynol wedi bod yn ymwneud â phrosiect 'Ysgolion yn gweithredu fel Sefydliadau sy'n Dysgu' a arweiniwyd gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD).

#### *Blaengynllun er mwyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd a'r trefniadau o ran cymwysterau*

- Ym mis Medi 2017, nododd yr Ysgrifennydd Addysg amserlen ddiwygiedig er mwyn cyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru, a oedd yn cyd-fynd â chyhoeddi *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl*.<sup>4</sup> Seiliwyd yr amserlen ddiwygiedig ar y broses statudol arfaethedig o gyflwyno'r cwricwlwm newydd i ysgolion o 2022, er mwyn rhoi mwy o amser i'r proffesiwn addysgu ac i ysgolion helpu i ddatblygu a pharatoi ar gyfer y newidiadau. Cyflwynir y cwricwlwm newydd o'r meithrin i Flwyddyn 7 yn 2022, gan symud ymlaen i Flwyddyn 8 yn 2023, Blwyddyn 9 yn 2024, Blwyddyn 10 yn 2025 a Blwyddyn 11 yn 2026. Bydd pob ysgol yn dechrau defnyddio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd o 2020, er mwyn caniatáu iddynt eu cyflwyno'n llawn yn 2022.

---

<sup>4</sup> Llywodraeth Cymru (2017c). *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl. Cynllun Gweithredu 2017-21*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

## Methodoleg

- Mabwysiadwyd dulliau cymysg ar gyfer y gwerthusiad o'r broses er mwyn ateb y cwestiynau ymchwil. Roedd y dull yn cynnwys elfennau o ymchwil gweithredu ac roedd yn rhoi pwyslais ar gasglu a rhannu adborth gan ymarferwyr a phartneriaid mewn amser real. O ganlyniad, rhannwyd canfyddiadau gyda Llywodraeth Cymru yn rheolaidd yn ystod y gwerthusiad trwy gyfuniad o gyflwyniadau ffurfiol a phapurau cryno.<sup>5</sup> Mae hyn wedi cynorthwyo dull hyblyg tuag at gynllunio gwaith maes yn ystod y gwerthusiad, a chafwyd trafodaeth reolaidd ynghylch y dulliau ymchwil mwyaf priodol er mwyn casglu ehangder a dyfnder y dystiolaeth sy'n ofynnol.
- Seiliwyd tystiolaeth a chasgliadau'r gwerthusiad ar y dulliau ymchwil canlynol:
  - Cyfweiliadau gyda sefydliadau rhanddeiliaid er mwyn cwmpasu'r fethodoleg gwerthuso a'r dull er mwyn casglu data;
  - Ymchwil ansoddol (gan gynnwys cyfweiliadau dros y ffôn ac ymweliadau ag ysgolion) gydag Arloeswyr Digidol;
  - Cyfweiliadau dros y ffôn gyda sampl o 32 o Ysgolion Arloesi Proffesiynol a Chwricwlwm, a ddewiswyd ar hap (gan ganolbwyntio ar weithgarwch Llinyn 1);
  - Cyfweiliadau dros y ffôn gydag 20 o Arloeswyr Cwricwlwm pellach, yr oeddent wedi ymuno â'r model ym mis Ionawr 2017 (gan ganolbwyntio ar weithgarwch Llinyn 2);
  - 15 o ymweliadau ag ysgolion sy'n astudiaethau achos a dau gyfweiliad dros y ffôn er mwyn casglu data manwl ychwanegol gan ystod ehangach o gynrychiolwyr ysgolion sydd wedi cyfrannu at astudiaethau achos a gynhwyswyd fel atodiadau i'r adroddiad hwn;
  - Holiadur byr a ddsbarthwyd i staff yn yr ysgolion hynny yr ymwelwyd â nhw er mwyn ystyried ymwybyddiaeth a dylanwad gweithgarwch Arloesi ar lefel ysgol gyfan;
  - Arolwg electronig o'r holl Ysgolion Arloesi, gan ddwyn 110 o ymatebion gan arweinwyr Arloesi;
  - Gwaith dadansoddi ac adrodd trwy gydol y broses werthuso, trwy gyfrwng cyfuniad o bapurau adborth cyflym mewnol (heb eu cyhoeddi) ac adroddiadau a gyhoeddwyd. Rhoddir crynodeb o ganfyddiadau adroddiadau a gyhoeddwyd yn flaenorol ym mhennod 4 yr adroddiad hwn.

---

<sup>5</sup> <https://gov.wales/statistics-and-research/formative-evaluation-Pioneer-school-model/?lang=cy>

## Canfyddiadau ac argymhellion y gwerthusiad

### *Model yr Ysgolion Arloesi*

- Mae'r dull a fabwysiadwyd er mwyn trawsnewid y cwricwlwm yng Nghymru yn arloesol ac mae'n cynrychioli dull newydd o weithio i'r holl bartneriaid dan sylw. Mae ymrwymiad i rymuso a chynorthwyo athrawon i ddatblygu'r cwricwlwm newydd wrth wraidd model yr Ysgolion Arloesi. Ysgogir y gwaith hwn gan rwydwaith o Ysgolion Arloesi ar draws Cymru, dan arweiniad Llywodraeth Cymru a gyda chymorth Consortia Rhanbarthol a phartneriaid allweddol eraill ar draws y system addysg yng Nghymru. Mae'r gwerthusiad ffurfiannol o fodel yr Ysgolion Arloesi wedi canfod bod yr holl bartneriaid dan sylw yn deall ac yn cefnogi'r weledigaeth ar gyfer y cwricwlwm newydd, a nodir yn *Dyfodol Llwyddiannus*.

Mae model yr Ysgolion Arloesi wedi llwyddo i sicrhau cefnogaeth gadarn ar gyfer y weledigaeth a nodwyd yn *Dyfodol Llwyddiannus* ymhlith yr ysgolion hynny sy'n ymwneud â'r broses ac ymhlith partneriaid strategol. Yn y pen draw, fodd bynnag, mae gan bob ysgol yng Nghymru rôl i'w gyflawni wrth ddarparu Cwricwlwm i Gymru sy'n llwyddiannus.

#### **Argymhelliad 1:**

**Mae angen gweithredu mwy unedig a gweithgarwch ymgysylltu â'r holl Ysgolion Partner ar draws Cymru er mwyn a) codi ymwybyddiaeth o'r cynnydd trwy fodel yr Ysgolion Arloesi, gan gyfleu'r cynnydd a'r cerrig milltir a gyflawnwyd hyd yn hyn; a b) sicrhau bod Ysgolion Partner yn deall y weledigaeth ar gyfer y cwricwlwm newydd, a nodwyd yn nogfen *Dyfodol Llwyddiannus*, a'u bod wedi ymrwymo iddi.**

**Gan ddatblygu'r gwaith a wnaethpwyd hyd yn hyn, dylai consortia rhanbarthol sicrhau eu bod yn manteisio ar wybodaeth a phrofiadau rhwydwaith yr Ysgolion Arloesi sy'n bodoli eisoes wrth iddynt ymgysylltu a gwneud gwaith dysgu proffesiynol gydag ysgolion a lleoliadau.**

- O raid, bu gweithredu model yr Ysgolion Arloesi yn broses ailadroddol ac esblygol. Bu gofyn i ysgolion a phartneriaid strategol eraill (gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Consortia Rhanbarthol, Estyn, Cymwysterau Cymru a chynrychiolwyr AU) weithio mewn ffordd ystwyth a hyblyg. Mae'n amlwg bod parodrwydd y partneriaid strategol i ymateb ac addasu strwythurau a swyddogaethau yn ystod y broses wedi bod yn un o gryfderau'r model.

- Mae Cynrychiolwyr Ysgolion Arloesi – uwch-reolwyr ac ymarferwyr eraill sy'n ymwneud â'r broses – yn teimlo'n frwdfrydig am eu profiadau o ymwneud â'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm. Gwelir ymdeimlad clir o berchnogaeth a chyfrifoldeb sy'n gysylltiedig â bod yn Ysgol Arloesi. Mae'r teimlad hwn o ymrwymiad a pherchnogaeth sy'n gysylltiedig ag ymwneud â model yr Ysgolion Arloesi yn ymestyn i'r unigolion hynny sy'n ymwneud â hyn trwy waith partneriaid strategol hefyd.
- Nid yw model yr Ysgolion Arloesi wedi bod yn rhaglen o weithgareddau a digwyddiadau unffurf a weithredir mewn ffordd gyson. Mae'n fodel rheoli newid cymhleth ac amlweddol a gaiff ei siapio a'i ddylanwadu gan ysgolion a phartneriaid eraill mewn ystod eang o ffyrdd. Felly, mae'n ddealladwy y bu profiadau o'r model yn amrywiol.
- Argymhellodd *Dyfodol Llwyddiannus* y dylid gweithredu egwyddor sybsidiaredd i drefniadau diwygio trwy sicrhau bod athrawon yn meddu ar berchnogaeth o'r broses o fewn fframwaith cymorth cenedlaethol. Mae'r gwerthusiad wedi canfod ei bod wedi cymryd amser i sicrhau cydbwysedd priodol rhwng perchnogaeth ymarferwyr a chymorth a chyfeiriad strategol. Gydag amser, mae arweinyddiaeth strategol wedi gwella, a rhoddir mwy o bwyslais ar gyfrifoldeb ar y cyd dros gyd-ddatblygu'r trefniadau ar gyfer y cwricwlwm newydd rhwng yr holl bartneriaid dan sylw. Mae'r gwerthusiad wedi canfod bod mesurau a gymrwyd er mwyn cryfhau rôl Consortia Rhanbarthol yn arbennig, wedi helpu i sicrhau cyd-drefniant a chydlyniaeth well ar draws y model.

O ystyried cymhlethdod y model, mae sicrhau bod yr holl bartneriaid yn ymwybodol o'u swyddogaethau a'u cyfaniadau disgwylidig yn debygol o fod yn her barhaus, a bydd gofyn gwneud gwaith craffu parhaus o hyn.

#### **Argymhelliad 2:**

**Dylai grwpiau llywodraethu strategol (a arweinir gan y Bwrdd Cyflawni Gweithredol) barhau i fonitro ac adolygu'r ffordd y cyflawnir rolau a chyfrifoldebau'r holl bartneriaid, gan ddefnyddio'r Briff Craidd fel pwynt cyfeirio ac ailystyried rolau yn ôl yr angen. Y mater allweddol fydd sicrhau portread clir rhwng i) swyddogaethau rheoli strategol, ii) cydlynu, cynorthwyo a gweithredu a iii) profi a datblygu'r cwricwlwm.**

- Er bod cefnogaeth ar gyfer y model, mae partneriaid yn cydnabod y risgiau a'r sialensiau sydd ynghlwm wrth fodel yr Ysgolion Arloesi. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â'r sialensiau o sicrhau cydlyniaeth a chysondeb trwy gydol prosiect rheoli newid cymhleth a hirdymor. Mae'r sialensiau yn cynnwys (ond nid ydynt wedi'u



cyfyngu i): cydlynu gweithgarwch ar draws nifer fawr o ysgolion amrywiol; sicrhau bod parhad a dilyniant o ran cynllunio'r cwricwlwm yn cael ei gynnwys yn y model ar draws gwahanol linyddau; rheoli partneriaethau gwaith ar draws sefydliadau; cyfleu cynnydd a sicrhau bod Ysgolion Partner yn ymrwymo; a chysoni datblygiad y cwricwlwm gyda'r fframwaith asesu. Mae'r broses hyd yn hyn wedi nodi'r risgiau a'r sialensiau hyn a chynnig ffordd er mwyn eu trafod. Wrth i gynnwys y cwricwlwm newydd gael ei ddatblygu mewn ffordd fanylach, mae'n debygol y bydd gofyn cael gweithgarwch dadansoddi risg a mesurau lliniaru manylach mewn perthynas â'r materion hyn.

Gydag amser, rhoddwyd mwy o ffocws ar sicrhau mwy o gydlyniaeth o fewn darpariaeth model yr Ysgolion Arloesi. Wrth ddatblygu, profi a mireinio cynnwys y cwricwlwm newydd, bydd cwestiynau ynghylch cydlyniaeth ac undod y trefniadau newydd yn dod yn bwysicach fyth.

### **Argymhelliad 3:**

**Mae angen sicrhau bod prosesau rheoli risg cadarn mewn grym, sy'n rhedeg law yn llaw â phrosesau datblygu'r cwricwlwm. Efallai mai'r her fwyaf sylweddol a nodwyd hyd yn hyn wrth gyflawni model yr ysgolion Arloesi yw sicrhau bod y trefniadau ar gyfer y cwricwlwm newydd a'r fframweithiau asesu yn cyd-fynd, yn enwedig y tu hwnt i Gyfnod Allweddol 3.**

### *Gweithredu'r model ar lefel genedlaethol*

- Ar y dechrau, roedd Ysgolion Arloesi yn teimlo'n ansicr ynghylch eu cyfrifoldebau cyffredinol wrth gyfrannu at weledigaeth *Dyfodol Llwyddiannus* ac roedd diffyg eglurder parhaus yn ystod llawer o weithgarwch Llinyn 1. Roedd hyn wedi peri rhwystredigaeth i rai Ysgolion Arloesi, yr oeddent yn teimlo nad oedd y model yn cynnwys cerrig milltir clir ac allbynnau pendant i'w tywys yn ystod eu gweithgarwch ymgysylltu ag ef. O ganlyniad, roedd yn aml wedi cymryd sawl mis i Ysgolion Arloesi lwyr ddeall y cyfrifoldebau o fod yn Ysgol Arloesi a'r hyn a ddisgwyliwyd ohonynt.
- Roedd gweithgarwch yn ystod Llinyn 2 yn cynnig cerrig milltir ac allbynnau mwy cadarn, yr oeddent yn cynnig ymdeimlad cliriach o'r disgwyliadau, y diben a'r cyfeiriad i Ysgolion Arloesi. Erbyn Llinyn 3, adroddodd Ysgolion Arloesi yn gyffredinol bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cyfraniad at ddatblygiad y cwricwlwm newydd a'r allbynnau penodol yr oeddent yn gweithio tuag atynt. Mae hyn yn dynodi y gallai'r gwaith o gyfleu rolau a'r cynllun cyflawni fod wedi bod yn llawer mwy clir o'r adeg pan ddechreuwyd gweithredu'r model.

- Seiliwyd model yr Ysgolion Arloesi ar weithgorau sy'n gyfrifol am ddatblygu'r cwricwlwm newydd. Yn ystod Llinyn 1, nid oedd gan Grwpiau Dylunio Strategol ffocws ddigon clir. Roedd Ysgolion Arloesi yn adrodd nad oeddent yn siŵr sut y byddai allbynnau'r grwpiau yn cael eu datblygu er mwyn cyfrannu at gamau dilynol y broses. Roedd partneriaid strategol yn teimlo bod allbwn y grwpiau hyn yn amrywiol o ran cynnwys, dyfnder ac ansawdd, a bod prosesau sicrhau ansawdd heb gael eu datblygu'n llawn ar yr adeg hon. Tynnwyd arbenigedd mewnol ychwanegol i mewn er mwyn cynorthwyo gwaith y grwpiau hyn.
- Yn ystod Llinyn 2, mabwysiadwyd strwythur a dull gweithredu cliriach, a phennwyd allbynnau ac amserlenni wedi'u diffinio yn well er mwyn cynorthwyo grwpiau MDPH. Roedd hyn wedi cynnig mwy o ffocws, gan helpu i sicrhau gwell ymdeimlad o gynnydd. Yn gyffredinol, roedd pobl o'r farn bod y cam gan gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a Chonsortia Rhanbarthol i hwyluso grwpiau MDPH ar y cyd yn ddatblygiad pwysig a arweiniodd at gyfathrebu a chydlynu gwell o fewn y grwpiau hyn.
- Yn ystod y gwerthusiad, adroddwyd pryderon gan Ysgolion Arloesi ynghylch cyflymder y gwaith datblygu, yn enwedig yn ystod Llinyn 1 a dechrau Llinyn 2. Roedd newidiadau o ran personél a chynrychiolaeth mewn rhai grwpiau wedi cyfrannu at hyn, yn yr un modd â thueddiad ymhlith rhai grwpiau i ailadrodd ac ailystyried pwyntiau trafod. Mae'n ymddangos bod y cynnydd arafach a wnaethpwyd yn ystod cyfnodau cynnar y cynllun cyflawni wedi cael effaith ar amserlenni cyflawni llinynnau olynol.
- Mae model yr Ysgolion Arloesi wedi rhoi pwyslais ar ddefnyddio gwaith ymchwil ac arbenigedd ryngwladol er mwyn cynorthwyo datblygiad y cwricwlwm. Mae hyn wedi bod yn un o gryfderau amlwg y model, gan gynnig cyfleoedd i ymarferwyr ymgysylltu ag arbenigwyr rhyngwladol adnabyddus.

#### **Argymhelliad 4:**

**Mae angen parhau i gynnig cyfleoedd i ysgolion ymgysylltu â phrifysgolion, canolfannau ymchwil ac arbenigwyr ym maes datblygu cwricwla wrth i'r gweithgarwch manylach o ddatblygu'r cwricwlwm fynd rhagddo. Mae hyn yn cynnwys meithrin partneriaethau rhwng ysgolion a SAUau yng Nghymru er mwyn helpu i ddatblygu gallu ac arbenigedd ym maes ymchwil am gwricwla.**

- Yn ystod y cyfnodau gweithredu cynnar, roedd y trefniadau monitro a'r atebolrwydd yn anghyson ac yn annatblygedig. Gwelwyd consensws cyffredinol bod lle i wella'r trefniadau monitro ac i gryfhau'r atebolrwydd o fewn y model. Cryfhawyd y trefniadau

monitro gydag amser, ac mae Consortia Rhanbarthol wedi bod yn gofyn am adroddiadau rheolaidd ynghylch gweithgarwch Ysgolion Arloesi.

### *Cydlyniaeth a rhyngweithio rhwng Ysgolion Arloesi a phartneriaid strategol*

#### Cydweithio rhwng grwpiau Arloesi

- Mae Ysgolion Arloesi a phartneriaid strategol allweddol wedi cydnabod ei bod yn hanfodol sicrhau synergedd ar draws elfennau gweithgarwch y cwricwlwm, dysgu proffesiynol a digidol. Mae model yr Ysgolion Arloesi wedi cynnig cyfleoedd i Ysgolion Arloesi gasglu a rhannu dysgu ar ffurf digwyddiadau a chynadleddau cenedlaethol. Yn ogystal, hwylusodd y model fwy o gydlyniaeth rhwng datblygiadau'r cwricwlwm a'r elfen ddigidol, ac estynnwyd gwahoddiad i Arloeswyr Digidol ymuno â'r grwpiau MDPH.
- Er gwaethaf y cyfleoedd hyn i integreiddio, yn gyffredinol, gwelwyd diffyg strwythur er mwyn hwyluso cydweithredu ac er mwyn sicrhau cydlyniaeth ar draws llinynnau gweithgarwch y cwricwlwm, dysgu proffesiynol a digidol. Yn arbennig, bu sialensiau a oedd yn ymwneud â phennu sut y byddai modd datblygu'r cwricwlwm newydd a dysgu proffesiynol law yn llaw.
- Adroddodd Ysgolion Arloesi am ddiffyg ymwybyddiaeth o weithgareddau a gynhelir ar draws meysydd gweithgarwch y cwricwlwm, dysgu proffesiynol a digidol, nad ydynt yn cael cyswllt uniongyrchol â nhw. Yn ogystal, adroddont am ddiffyg cyfleoedd i gydweithio ar weithgarwch Arloesi ar draws y meysydd hyn. O'r herwydd, nodwyd bod sicrhau cydlyniaeth ar draws amrywiaeth eang gweithgarwch yr Ysgolion Arloesi yn flaenoriaeth ar gyfer gweithgarwch Ysgolion Arloesi yn y dyfodol.
- Yn gynyddol, mae Consortia Rhanbarthol wedi cynnig cyfleoedd i Ysgolion Arloesi gydweithio ag Ysgolion Arloesi eraill y tu allan i'r gweithgorau cenedlaethol. Fodd bynnag, mynegwyd safbwyntiau cymysg gan Ysgolion Arloesi ynghylch llwyddiant cyfleoedd o'r fath i hwyluso dealltwriaeth ddigonol o waith Ysgolion Arloesi eraill.

#### **Argymhelliad 5:**

**Yn ystod y camau nesaf o weithredu'r model, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod mwy o gydlyniaeth a chysylltiadau cryfach rhwng gwaith Arloeswyr y Cwricwlwm a'r Arloeswyr Dysgu Proffesiynol. Dylai Llywodraeth Cymru a chonsortia rhanbarthol adrodd erbyn diwedd 2018 ar sut y mae Arloeswyr y Cwricwlwm a Dysgu Proffesiynol yn cydweithio fel rhwydwaith a sut y mae'r rhwydwaith hwnnw yn ymgysylltu â phob ysgol a lleoliad er mwyn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cwricwlwm newydd cyn ei ryddhau, er mwyn**

### Cydweithio a rhyngweithio rhwng tair haen y system addysg yng Nghymru

- Mae'n Cenhadaeth Genedlaethol yn nodi'r dair haen y cynlluniwyd system addysg Cymru arnynt. (Haen 1 yw Llywodraeth Cymru; Haen 2, Partneriaid cyfryngol, gan gynnwys Estyn, Consortia Rhanbarthol, Cymwysterau Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg ac addysg uwch; Haen 3 yw ysgolion). Canfu'r gwerthusiad bod y perthnasoedd gwaith rhwng yr haenau wedi gwella yn gyffredinol yn ystod y broses. Ar y dechrau, roedd ymdeimlad nad oedd y rolau yn ddigon clir ac nad oedd gweithgarwch yn cael ei gydlynu rhyw lawer. Fodd bynnag, wrth i Linyn 2 symud yn ei blaen, gwelwyd ymdrechion unedig gan Lywodraeth Cymru a Chonsortia Rhanbarthol i gydweithio'n agosach ar elfennau cynllunio strategol a chyflawni. Bu mwy o bwyslais ar dull gweithredu a luniwyd ar y cyd ac sy'n cynnwys tair haen y system addysg yng Nghymru, gan symud i ffwrdd o'r pwyslais ar 'Ysgolion Arloesi yn arwain ac yn siapio cynllun manwl y cwricwlwm newydd'. Mae'n amlwg bod Ysgolion Arloesi yn parhau i fod wrth wraidd y broses, fodd bynnag, mae'r gwerthusiad hwn wedi canfod bod y symud tuag at ddull gweithredu sy'n fwy cydweithredol ac a gyd-gynlluniwyd, wedi gwella cyflawniad cyffredinol y model.

### *Gweithredu'r model ar lefel ysgol*

- Ceir corff gynyddol o dystiolaeth bod Ysgolion Arloesi yn integreiddio dulliau newydd fwyfwy yn eu harferion cynllunio ac addysgu. Fodd bynnag, mae'r graddau y caiff dulliau gweithredu newydd tuag at arferion cynllunio ac addysgu eu hymgorffori fel dulliau gweithredu ysgol gyfan, yn amrywio ar draws yr Ysgolion Arloesi. Mae hyn yn adlewyrchu amrywiad o ran pa mor barod y mae pob Ysgol Arloesi i brofi addasiadau sylweddol i'w harferion cynllunio ac addysgu.
- Mae amrediad y dulliau gweithredu newydd a gyflwynir gan Ysgolion Arloesi yn cynnwys:
  - dechrau integreiddio egwyddorion *Dyfodol Llwyddiannus* yn eu harfer cynllunio ac addysgu;
  - uwchsgilio athrawon er mwyn ymateb i'r Safonau Addysgu Proffesiynol a'r trefniadau ar gyfer y cwricwlwm newydd;
  - profi prosiectau trawsgwricwlaidd y mae ganddynt derfyn amser;
  - cynyddu cydweithio rhwng athrawon wrth iddynt gynllunio gwersi;
  - addasu strwythurau'r cwricwlwm er mwyn symud at strwythur MDPH;
  - diwygio rolau a chyfrifoldebau staff; a
  - rhoi mwy o bwyslais ar ddulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar y disgybl.
- Mae Ysgolion Arloesi Cynradd wedi gallu profi dulliau cwricwlwm cyfan neu ysgol gyfan yn well nag Ysgolion Arloesi uwchradd. Yn draddodiadol, mae cwricwlwm ac

addysgeg y Cyfnod Sylfaen wedi ymdebygu yn fwy i egwyddorion *Dyfodol Llwyddiannus* na chyfnodau allweddol eraill, ac mae Ysgolion Arloesi uwchradd yn canfod bod trefniadau asesu a chymhwyso yn cyfyngu yn fwy ar eu gweithgareddau Arloesi.

- Gwelir tystiolaeth gynyddol bod Ysgolion Arloesi yn dechrau hunan-werthuso eu gweithgarwch Arloesi ar lefel ysgol, ond mae gwaith gwerthuso o'r fath yn amrywiol ac yn anghyson ar draws Ysgolion Arloesi. O bryd i'w gilydd, mae amrywiad o ran natur a graddau gweithgarwch Arloesi, ynghyd ag amrywiad mewn gweithgareddau gwerthuso, yn peri pryder ymhlith ysgolion Arloesi ynghylch y cyfeiriad y mae eu hysgol yn mynd iddo, gan nad oes ganddynt drosolwg o'r ffordd y mae eu gweithgareddau nhw yn cymharu â gweithgareddau Ysgolion Arloesi eraill.
- Mae cael cyswllt gyda'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm wedi bod yn werthfawr i ddatblygiad proffesiynol yr ymarferwyr hynny dan sylw. Yn gyffredinol, mae Ysgolion Arloesi wedi gwerthfawrogi'r cyfle i staff arloesi a defnyddio eu harbenigedd er mwyn datblygu a phrofi dulliau newydd a cheir tystiolaeth o athrawon sy'n gwneud newidiadau i'w harfer addysgu o ganlyniad i'r ffaith eu bod yn Ysgol Arloesi.

#### *Ymgysylltu ag Ysgolion Partner*

- Hyd yn hyn, mae'r gweithgarwch ymgysylltu ag Ysgolion Partner a gyflawnir gan Ysgolion Arloesi wedi bod yn eithaf cyfyngedig, yn aml o ganlyniad i ddiffyg eglurder ynghylch y disgwyliadau a roddir ar Ysgolion Arloesi o ran cyfleu gwybodaeth i Ysgolion Partner. Yn ogystal, mae Ysgolion Arloesi wedi teimlo nad oeddent yn barod i gyfleu newidiadau am y cwricwlwm i Ysgolion Partner tra'r oedd cwricwlwm yn cael ei ddatblygu o hyd, ac aethant ymlaen i gwestiynu'r graddau yr oedd Ysgolion Partner yn fodlon ymgysylltu â'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm yn ystod y cyfnod cynnar. Yn aml, cyfyngwyd ar y gweithgarwch ymgysylltu i hysbysu Ysgolion Partner o ddatblygiadau trwy gyfrwng mecanweithiau ymgysylltu sy'n bodoli eisoes megis cyfarfodydd clwstwr.
- Fodd bynnag, ceir tystiolaeth nawr o fwy o weithgarwch ymgysylltu gan Ysgolion Arloesi gydag Ysgolion Partner, gan bod Ysgolion Arloesi yn teimlo'n fwy abl i gyfleu datblygiadau go iawn gydag Ysgolion Partner. Mae enghreifftiau o weithgarwch ymgysylltu yn cynnwys: Gwahodd ysgolion i arsylwi dulliau addysgu newydd; rhannu gwybodaeth trwy gyfrwng diwrnodau HMS ar y cyd ag ysgolion clwstwr; gweithio ar draws clystyrau er mwyn mapio pedwar diben y cwricwlwm ar draws gwahanol feysydd pwnc; a chasglu mewnbyn gan Ysgolion Partner er mwyn cyfrannu at ddatblygiadau.

- Bellach, caiff mecanweithiau eu sefydlu ar lefel clwstr ac ar lefel ranbarthol er mwyn sicrhau bod Ysgolion Partner yn cael eu hysbysu o'r datblygiadau diweddaraf. Mae Consortia Rhanbarthol yn cynorthwyo clystyrau o ysgolion i sefydlu systemau er mwyn cyfleu gwybodaeth o fewn pob clwstr, ac mae Ysgolion Arloesi wedi pennu bod ymgysylltu ag Ysgolion Partner yn flaenoriaeth o ran gweithgarwch Arloesi yn y dyfodol.
- Mae'r gwerthusiad ffurfiannol hwn o fodel yr Ysgolion Arloesi wedi canolbwyntio ar ddatblygiad, gweithrediad a gwerthusiad dull newydd er mwyn diwygio addysg. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn dangos y bu hon yn broses werthfawr ac adeiladol i'r rhai y buont yn ymwneud â hi, yn gynrychiolwyr Ysgolion Arloesi ac yn bartneriaid strategol eraill. Nodwyd nifer o bwyntiau dysgu yn ystod y broses weithredu hyd yn hyn, a gweithredir ar sail y rhain yn aml er mwyn cyfrannu at newidiadau i strwythurau cyflawni, rolau a threfniadau llywodraethu. Nodweddwyd gweithrediad y model gan weithgarwch myfyrio beirniadol a mireinio parhaus. Mae partneriaid ar draws pob haen o fewn y system addysg yng Nghymru wedi gwerthfawrogi'r cyfleoedd dysgu a gynigiwyd ganddo.
- Mae'n werth nodi bod y gwerthusiad wedi dod i ben ar adeg pan fo'r gweithgarwch yn cyflymu, wrth i'r ffocws symud at ddatblygu cynnwys y cwricwlwm. Gan edrych i'r dyfodol, ceir goblygiadau yng nghanfyddiadau'r gwerthusiad ar gyfer y cam nesaf datblygiad y cwricwlwm. Maent yn cynnwys (ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i): yr angen am weithgarwch ymgysylltu mwy systematig gydag Ysgolion Partner; sicrhau bod pob parti yn glir ynghylch eu swyddogaethau wrth i gynnwys gael ei ddatblygu, ei brofi a'i fireinio; sicrhau cysondeb a chydlyniaeth o ran y cymorth sydd ar gael i ysgolion mewn gwahanol ranbarthau. Mae'r tîm gwerthuso yn dymuno'n dda i'r holl bartneriaid wrth iddynt barhau i weithio tuag at gyflawni'r weledigaeth uchelgeisiol.